

THOMAS, SAMUEL (1692 - 1766), gweinidog gyda'r Annibynwyr, ac athro academi Caerfyrddin

Enw: Samuel Thomas
Dyddiad geni: 1692
Dyddiad marw: 1766
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr, ac athro academi Caerfyrddin
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1692 yn y Derllysg gerllaw Caerfyrddin, yn fab i amaethwr cefnog. Yr oedd yn un o ddisgyblion cyntaf **Thomas Perrott**; gadawodd yr academi yn 1724, a chredir iddo wedyn fod yn weinidog yn West Looe, Cernyw. Yn 1735, galwyd ef i fugeilio eglwys Heol Awst, Caerfyrddin, a chadwai hefyd ysgol ramadeg. Ond yn 1743, pan symudwyd yr academi eilwaith i Gaerfyrddin, gwahoddwyd Samuel Thomas i gynorthwyo **Evan Davies** ynddi - noder na ddiddymwyd yr ysgol, ac iddi barhau, mewn cyswll â'r academi, hyd 1845; felly pan ddarllenwn fod rhyw weinidog wedi bod dan addysg 'yng Nghaerfyrddin,' nid yw bob amser yn dilyn iddo fod yn yr academi. Ymddengys mai gŵr sychlyd, yn y pulpud ac yn y ddarlithfa, oedd Samuel Thomas - cwyna **Thomas Morgan** ('Henllan') ar ei naws oeraidd. Yr oedd yn Armin ar y lleiaf, onid yn wir yn Ariad. Ni wingodd ei eglwys yn erbyn hynny; eto dengys ei chofnodion mai bechan a marwaidd oedd hi ar derfyn ei 30 mlynedd fel gweinidog. Eithr fel athro, poenai ei olygiadau lawer ar y Bwrdd Cynulleidfaol; ac ar ôl sawl ymdrech ofer i gael gan **Evan Davies** gael gwared ohono, penderfynodd y Calfiniaid (1757) agor academi iddynt eu hunain yn y Fenni. Ymadawodd **Evan Davies** â Chymru yn 1759, a rhoes y Bwrdd Presbyteraidd lywodraeth yr academi i Samuel Thomas, a **Jenkin Jenkins** yn gynorthwywr iddo; dan y ddeuddyn hyn sefydlogwyd nodwedd 'anuniongred' yr academi. Yn ôl pob tystiolaeth, yr oedd Samuel Thomas yn athro trylwyr a chydwybodol, ac yr oedd safon dysg yr academi'n gydnabyddedig uchel yn ei ddwylo. Ymddeolodd yn 1764, a bu farw 7 Medi 1766, 'yn 74 oed' meddai ei faen coffa yn Heol Awst.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iii, 429-30, 433-4

J. Dyfnallt Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst, Caerfyrddin* (1926), 20-3

G. D. Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr* (1939), 30-44

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804771

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Arddull APA



Jenkins, R. T., (1953). THOMAS, SAMUEL (1692 - 1766), gweinidog gyda'r Annibynwyr, ac athro academi Caerfyrddin. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-THOM-SAM-1692>

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government